

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Parciau ac Ardaloedd Chwarae a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Stryd Fawr Llandybïe ar nos Fercher Gorffennaf 10^{fed} 2019 am 6.30 yh.

Presennol

Cynghorwyr	R.A. Davies	N. Evans	W.D. Evans
	Mrs K.D.L Davies	P.H. Roberts	Mrs A. Evans

Ymddiheuriadau	I. Rh. Llewelyn	Mrs S. E. Thomas	E.W. Nicholas
-----------------------	-----------------	------------------	---------------

566.

Cystadleuaeth Arwyddion Parc

Roedd yr Aelodau wedi beirniadu'r ffotograffau a gyflwynwyd fel rhan o'r prosiect dylunio a gynhaliwyd yn yr ysgolion yn ddiweddar. Dewiswyd y ffotograffau buddugol ac, fel y cytunwyd yn flaenorol, bydd sic am £100 yn cael ei danfon at gynghorau ysgol ysgolion Llandybïe, y Blaenau a Phenygroes. Ni dderbyniwyd ceisiadau oddiwrth Ysgolion Cynradd Sirol Saron neu Barcyrhun. Dewiswyd pedwar ffotograff fel y rhai a ffeirir i'w cynnwys ar yr arwyddion.

Bu trafodaeth ynghylch y cynllun ffafriedig ar gyfer yr arwyddion parc, ac **argymhellwyd** bod y Clerc yn adolygu'r opsiynau sydd ar gael, gan wneud sylw dyledus o unrhyw destun cyfreithiol gorfodol y mae'n rhaid ei gynnwys ar yr arwyddion.

567.

Adolygu'r parciau, a'r gwaith a gynllunir ar gyfer 2019/2020

Cafwyd arolwg cynhwysfawr gan y Clerc o'r 10 parc sydd yn cael eu cynnal a chadw ers Trosglwyddo'r Asedau o'r Cyngor Sir.

a) Arwyddion MUGA – fel y soniwyd yn flaenorol yn y Cyngor Llawn, mae arwyddion wedi'u prynu i ddatgan y gofynion Iechyd a Diogelwch pan yn defnyddio'r MUGA. Nid ydynt wedi cyrraedd eto, a bydd y Clerc yn trefnu eu bod yn cael eu gosod pan fyddant wrth law.

b) Roedd yr adroddiadau arolygu wedi uwchleuo'r angen i osod hysbysfyddau i ddangos sut y dylid defnyddio'r offer ffitrwydd yn y parciau. 'Rydym yn archwilio arwyddion addas ar hyn o bryd. Yn ôl yr arolwg blynyddol o'r parciau a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2019, a'r arolwg gweithredol ym mis Mai 2019, ni chofnodwyd unrhyw risgiau uchel. Roedd y Clerc wedi adolygu'r adroddiadau ynghylch yr holl risgiau a gofnodwyd, ac wedi ymweld â'r parciau yng nghwmni contractwyr lleol i adolygu'r holl faterion sydd o risg canolradd, isel ac isel iawn. Dangoswyd i'r Aelodau rhestr gynhwysfawr o'r gwaith sydd angen ei wneud, ac **argymhellwyd** bod y contractwyr yn gwneud y gwaith fel na fydd rhaid i adroddiadau arolygu y dyfodol ddygymod â chymaint o broblemau.

Roedd yr Aelodau yn gytûn bod diddymu'r materion risg yma yn rhan hanfodol o ddiogelwch yn y parciau ac **argymhellwyd** bod y Clerc y gofyn i'r contractwyr i gwblhau'r gwaith cyn gynted ag y bo modd.

Y contractwyr yw R.M Jones, P Bishop a Chyngor Sir Caerfyrddin.

ch) Roedd y gwaith o osod offer newydd yn y parciau wedi dechrau, ond wedi oedi. Erbyn hyn mae'r gwaith wedi'i drefnu i'w gwblhau cyn diwedd Gorffennaf 2019.

Cytunwyd ar gyllideb o£70k yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, ond nid oedd y gwaith yn Llandybïe wedi dechrau tan Ebrill 2019. Hyd yn hyn, roedd £41665.66 wedi'i dalu. Roedd £30k arall wedi'i ddyrannu ar gyfer Offer i'r Parciau/Offer Chwarae yn 2019/20, ac roedd arian wrth gefn gwerth £150k wedi'i glustnodi'n arbennig at ddiben amnewid offer yn y parciau.

Ers pan cytunwyd ar y tendr gwreiddiol roedd peth o'r offer chwarae wedi dirywio, felly gofynnwyd i'r Aelodau ystyried tranche pellach o offer newydd i gael gwared ar y risg cynyddol.

Penderfynwyd bod y Clerc yn gofyn am ddyfynbriasiau am:

Multi-Play Hŷn yn Llandybïe

Multi-Play Hŷn ym Mhenygroes

Fit Point yn Llandybïe

Multi-Play Hŷn ym Mhenybanc

Mae cyflwr yr arwyneb yn llawer o'r parciau wedi bod yn peri consyrn ac **argymhellwyd** bod y Clerc yn gofyn am ddyfynbrisiau am yr ardaloedd hynny, gan gynnwys arwyneb gwbl newydd, atgyweirio'r ymylon neu patsio lle bo hynny'n addas.

Yn ddelfrydol, dylai'r Cyngor lunio rhaglen dreigl i amnewid yr offer yn y parciau, ond mae angen cywiro problemau hanesyddol ynghylch cynnal a chadw diffygiol cyn bod modd cyflwyno rhaglen o'r fath. Cydnabyddir y bydd defnydd dwys o'r parciau yn debyg o fynnu mwy o fuddsoddi ac, os bydd fandaliaeth yn parhau i ddigwydd yn gyson, bydd rhaid rhoi ystyriaeth i dynnu'r offer i ffwrdd, yn hytrach na'i amnewid.

d) Llif-oleuadau MUGA Llandybïe

Roedd y Clerc wedi bod yn poeni am yr anfonebau a dderbyniwyd oddiwrth EDF ers i'r Cyngor gymryd drosodd yr adnodd o ofal y Cyngor Sir. Er gwaethaf honiadau EDF bod popeth yn gywir, erbyn hyn mae'n ymddangos bod y rheolwr data sy'n gyfrifol am ddarllen y mesurydd wedi bod yn darllen y mesurydd anghywir. Disgwylir anfonebau diwygiedig oddiwrth EDF yn y man.

568.

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach i'w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 7.30 yh.